# ELLIS, ROBERT (1805 - 1872), clochydd Llanllyfni (1829-72).

**Enw:** Robert Ellis
**Dyddiad geni:** 1805
**Dyddiad marw:** 1872
**Priod:** Catherine Ellis (née Williams)
**Rhiant:** Ann Dafydd
**Rhiant:** Ellis Dafydd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clochydd Llanllyfni
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
**Awdur:** Gwynfryn Richards

Bedyddiwyd yn Eglwys Llanllyfni 20 Hydref 1805, mab Ellis ac Ann Dafydd, Penbryn Bach, Llanllyfni. Priododd Catherine Williams, Llandwrog, yn 1830, a bu iddynt saith o blant.

Yr oedd yn brydydd yn ogystal â chlochydd, ac adwaenid ef wrth yr enw ' Llyfnwy.' Cyhoeddodd *Lloffion Awen Llyfnwy* (1852), sef casgliad o'i gerddi, ond eddyf yn ei ragymadrodd nad yw'n 'ymestyn at ddim goruchafiaeth,' gan na chafodd un chwarter o ysgol erioed. Cyfansoddodd laweroedd o garolau, ac yn arbennig ar gyfer y plygain blynyddol yn eglwys y plwyf. Canai yn y dull carolaidd cynganeddol, ac yntau'n un o'r rhai diwethaf i ymarfer y fath ddull. Cyhoeddwyd casgliad o'i garolau ar ôl ei farw, sef *Carolau Awen Llyfnwy*. Yr oedd yn englynwr medrus, a gwelir llawer o'i englynion ar feddfeini Llanllyfni a'r cylch.

Ni chyfyngid ei ddiddordeb i brydyddiaeth, canys yr oedd hefyd yn gerddor; ef a arweiniai gerddorfa eglwys Llanllyfni. Bu farw 14 Ebrill 1872, wedi gwasnaethu mewn 2,556 o angladdau.

## Awdur

**Y Canon Gwynfryn Richards**

## Ffynonellau


W. R. Ambrose, *Hynafiaethau, cofiannau, a hanes presennol Nant Nantlle y traethawd buddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Pen-y-groes, Llun y Pasg, 1871* (1872), 84-5

*Enwogion Sir Gaernarfon* (1922), 65-6

*Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, ix, 1, 47-55

T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944), 234

Adysgrifau'r Esgob


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734328

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu